OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 No. 354

# Gorchymyn Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaeth Drosiannol) 2021

**Darpariaeth drosiannol**

**3.**—(1) Yn yr erthygl hon, ystyr "Deddf 1972" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972(**1**).

(2) Mae unrhyw hysbysiad neu ddogfen arall a gyhoeddir neu a anfonir cyn 1 Mai 2021 yn unol â'r darpariaethau a bennir ym mharagraff (3) fel y'u haddaswyd gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Coronafeirws) (Cyfarfodydd) (Cymru) 2020(**2**) mewn perthynas â chyfarfod a gynhelir ar 1 Mai 2021 neu ar ôl hynny, i'w drin neu i'w thrin fel pe bai wedi ei gyhoeddi neu ei chyhoeddi neu ei anfon neu ei hanfon yn unol â'r darpariaethau hynny fel y'u diwygiwyd gan Atodlen 4 i Ddeddf 2021.

(3) Y darpariaethau yw—

(a) adran 1 o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Mynediad at Gyfarfodydd) 1960(**3**);

(b) Rhan 5A o Ddeddf 1972;

(c) Atodlen 12 i Ddeddf 1972.

(**1**) 1972 p. 70.
(**2**) O.S. 2020/442 (Cy. 100), a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/653 (Cy. 150).
(**3**) 1960 p. 67.